# Rhyfeddod hynafol: Rheoli coedwig Cwm Cletwr

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cafodd llawer o'n safleoedd coetir brodorol eu cwympo a'u hailblannu â choed conwydd sy'n tyfu'n gyflym. Dyma’r hyn ddigwyddodd mewn rhannau o goedwig Cwm Cletwr. Pe baech chi'n mynd nôl yn gyflym i'r 1990au, roedd gan y dyffryn lwybr cerdded cylchol trwy Warchodfa Natur o eiddo’r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac un oedd yn llawn croesddywediadau! Ar ochr ddeheuol y dyffryn serth roedd un o goetiroedd lled-naturiol hynafol gorau gorllewin Cymru - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), lle oedd yn adnabyddus ymhlith y rhai sy’n ymddiddori mewn planhigion a hynny oherwydd ei fwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn a llecyn poblogaidd gyda phobl sy'n hoff o adar am fod yma wybedogion brith a thelorion y coed. Ar ei ochr ogleddol, daeth coed cegid aeddfed y Gorllewin â diweddglo braidd yn dywyll a rhagargoelus i fenter ar draws Afon Cletwr.

Yn hydref 1998, fe ddechreuom ni ar brosiect i gael gwared ar gegid y Gorllewin fel y cam cyntaf i adfer y safle i goetir brodorol. Roedd yn safle anodd ei gael yn gywir. Bu’n rhaid cymryd gofal mawr i beidio â newid yr amodau llaith a gwlyb oedd yn cefnogi'r cymunedau o blanhigion oedd yn glynu wrth geunant yr afon. Roedd mynediad yn gyfyngedig wrth geisio symud unrhyw bren i'r farchnad a bu’n rhaid symud yr holl bennau coed a’r canghennau oddi ar y safle i helpu cyflymu'r broses adfer. Gwnaethpwyd hyn yn rhan wlypaf y flwyddyn er mwyn osgoi tymor bridio’r adar ac roedd hyn felly yn ei gwneud yn dasg heriol.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach ac efallai na fyddech chi o bosib yn gwybod bod 20 hectar o gegid y gorllewin wedi bod yno erioed. Mae’r gwaith adfer wedi cael ychydig help llaw gyda phlannu coed ynn, bedw, cerddin a derw gafodd eu tyfu’n lleol er mwyn cynorthwyo i gynnal cyflwr y pridd coetir ar y dechrau. Fel arall, mae natur wedi gwneud ei gwaith drwy adfywio’r coed brodorol yn naturiol ac adfer yn ddi-os, o dipyn i beth, fflora a ffawna'r coetir brodorol, gan gynnwys y pathew. Bu cefnogaeth gwirfoddolwyr, a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Natur, yn werthfawr wrth reoli'r safle yn barhaus.

Mae Cwm Cletwr yn rhan o rwydwaith o waith adfer safle coetir hynafol yn Nyffryn Dyfi, gwaith sydd wedi bod ar y gweill ers yr 20 mlynedd diwethaf. Mae rhai o'r safleoedd yn rhan o Barc Hanesyddol a gerddi, e.e. parc ceirw ac ystâd Pryce. Os ydych chi'n teithio ar hyd yr A487, efallai na fyddwch yn cofio’r trwch aeddfed o gegid y gorllewin neu’r llwyni rhododendron gan fod y cyfan wedi cael ei dynnu oddi yno er mwyn gwella’n sylweddol gyflwr y safle coetir hynafol.

Er bod y coetir hynafol a adferwyd yn fwy gwydn ac wedi’i gysylltu’n well, y cyfaddawd yw gostyngiad yn y cynhyrchu fu ar bren meddal yn hytrach na rhywogaethau brodorol, ond dyma'r penderfyniad cywir yn achos Cwm Cletwr.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

